**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Chwefror 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | T J Hennegan |
| V A Holland | M Jones | H Lawson |
| W G Lewis | P N May | F D O'Brien |
| S Pritchard | M S Tribe | T M White |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

Beth Allender　Elizabeth Lee

**Cynghorwyr sy'n Aelod Cyfetholedig**

C A Holley　S M Jones　L R Jones

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Leanne Ahern | Swyddog Cefnogi'r BGC |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Paula Livingstone | Swyddog Adrannol Iechyd yr Amgylchedd, Rheoli Llygredd a Thai'r Sector Preifat |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Carol Morgan | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Suzy Richards | Swyddog Polisi Cynaliadwy |
| Richard Rowlands | Rheolwr Cyflwyno Strategol a Monitro |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd Andrea Lewis – Cadeirydd Cyd-bwyllgor y BGC
Y Cynghorydd David Hopkins - Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
Martyn Evans - Cyfoeth Naturiol Cymru
Helen Grey - Cyfoeth Naturiol Cymru
Cherrie Bija – Cyd-aelod Craffu y BGC

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: P R Hood-Williams

## 72 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr T J Hennegan, L R Jones ac S Pritchard gysylltiad personol â chofnod rhif 76 – Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Cynllun Lles Lleol Drafft.

Datganodd y Cynghorydd R Fogarty gysylltiad personol â chofnod rhif 77 - Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelod y Cabinet - y Cynghorydd David Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad.

## 73 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 74 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

## 75 Cwestiynau gan y cyhoedd

Cwestiwn/cwestiynau a dderbyniwyd.

1. Gofynnodd Nor Perrott gwestiwn am y cysylltiad rhwng Airbnb/Eiddo Rhentu Tymor Byr a Thai Amlfeddiannaeth (HMO), a chwestiwn am reoleiddio/camau gweithredu'r cyngor a'r effeithiau.

2. Gofynnodd Mark Row bedwar cwestiwn a oedd yn ymwneud â nifer yr HMOau ac asesiad y cyngor o geisiadau am HMO.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'r cwestiwn a gyflwynwyd gan Nor Perrott.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ef a'i swyddogion yn cyfarfod â Mark Row i drafod ei gwestiynau, yn ogystal ag ymateb yn llawn yn ysgrifenedig.

## 76 Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Cynllun Lles Lleol Drafft.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd Cyd-bwyllgor BGC Abertawe) a'r Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol y Cynllun Lles BGC drafft a gofynnwyd am farn cyn cymeradwyo'r cynllun.

Manylodd y Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol ar yr ymgynghoriad a ddechreuodd ar 22 Tachwedd, 2022 ac a ddaeth i ben ar 13 Chwefror, 2023. Rhagflaenwyd hyn gan gyfnod ymgysylltu statudol 14 wythnos o hyd gyda Chomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol lle canmolwyd BGC Abertawe am ymagwedd gydweithredol at ddatblygu'r Cynllun. Manylodd ar yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid a'u cynnwys.

Cyfeiriodd at y gwaith a wnaed gan Eiriolaeth eich Llais Gorllewin Morgannwg wrth gynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r ymgynghoriad a chysylltu â’r grwpiau amrywiol er mwyn sicrhau bod barn niwroamrywiaeth a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynrychioli. Hyrwyddwyd ymgynghoriad hefyd drwy bartneriaid a'u rhwydweithiau, grwpiau rhanddeiliaid o amgylch pobl â nodweddion amddiffynnol a’r cyfryngau.

Cyfeiriodd at yr ymatebion gan Gomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

Nodwyd bod yr ymateb i'r arolwg ar-lein yn is na'r disgwyl, er nad oedd hwn yn fater a oedd yn gysylltiedig ag Abertawe'n unig. Roedd y canlyniadau cychwynnol yn awgrymu cefnogaeth ysgubol o'r amcanion a'r camau manwl yn y cynllun. Roedd llai o gefnogaeth yn bodoli ynghylch datblygu data, trefniadau perfformio a dylanwadu ar sefydliadau eraill.

Manylodd ar y newidiadau i'r cynllun drafft yn ystod y cyfnod ymgynghori a oedd yn cynnwys crynodeb o'r asesiad o les lleol a diweddariadau am sut y diffiniwyd rhai o'r amcanion lles. Cyfeiriodd at ddiweddariadau i'r diagramau ysgogi a'r disgrifiadau o effaith y cynllun ar y saith nod lles cenedlaethol. Gwnaed newidiadau hefyd i'r camau i gyflawni'r amcanion a'r camau gweithredu ar gyfer gwneud hynny.

I gloi, cyfeiriodd at y camau nesaf a oedd yn cynnwys cwblhau'r cynllun yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad a chael cymeradwyaeth gan y pedwar partner statudol. Byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor BGC ar 27 Ebrill 2023. Byddai Cynlluniau Gweithredu'n cael eu symud ymlaen rhwng mis Mawrth a mis Mehefin ac yn cael eu datblygu ar gyfer pob amcan yn ogystal â datblygu gwahanol fersiynau hygyrch o'r cynllun yn barod ar gyfer y lansiad ym mis Mai.

Dywedodd y Swyddog Polisi Cynaliadwy fod dros 90% o'r newidiadau diweddar wedi'u nodi uchod ac nid oedd mân newidiadau yn newid cyfeiriad y cynllun mewn unrhyw ffordd.

Diolchodd y Cynghorydd Lewis i'r Swyddogion gan dynnu sylw at y ffaith bod y pedwar amcan lles lleol yn parhau o'r cynllun blaenorol, fodd bynnag roedden nhw wedi diweddaru eu diffiniadau i fod yn fwy perthnasol. Gwnaed penderfyniad i sicrhau y byddai newid yn yr hinsawdd ac adfer natur yn aros gyda'i gilydd fel amcan gan fod cysylltiad cynhenid rhwng y ddau. Dywedodd y byddai gan y cynllun ffordd llawer mwy cadarn o gofnodi canlyniadau a mesurau. Mae'r cynllun yn gwneud ymdrech ar y cyd i ganolbwyntio ar un neu ddwy flaenoriaeth benodol sydd gan y BGC dan yr amcanion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn fesuradwy ac i sicrhau nad ydynt yn croesi unrhyw fyrddau eraill.

Gofynnwyd cwestiynau gan y Pwyllgor a chafwyd trafodaeth ynglŷn â pherfformiad y BGC a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

1) Mesurau perfformiad a thargedau – nodwyd y byddai'r rhain yn cael eu penderfynu gan gynlluniau gweithredu penodol gan arwain at gysylltiadau cliriach rhwng dangosyddion lles cenedlaethol a phob un o amcanion Cynllun Lles y BGC.
2) Goblygiadau ariannol - er nad oedd cyllideb bwrpasol ar gyfer cyflawni'r cynllun lles, roedd synergedd agos rhwng Cynllun Corfforaethol y Cyngor (e.e., cyflawni'r targed sero net erbyn 2030, a gafodd ei gynnwys o fewn cynllun lles y BGC). Fel enghraifft, nodwyd bod CNC yn datblygu eu Cynllun Corfforaethol sydd â thri amcan lles gyda'r bwriad o gyd-fynd â Chynllun Lles y BGC, e.e., argyfwng natur, argyfwng hinsawdd ac atal llygredd. Byddai cynlluniau corfforaethol holl aelodau cyfansoddol y BGC yn cyd-fynd, gydag arweinwyr allweddol ar gyfer pob grŵp cyflwyno gwrthrychol.
3) Cynnwys y cyhoedd - trafodwyd nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'u natur.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau, Swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor ar gynllun lles drafft y BGC.

**77 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Tai Amlfeddiannaeth - y Cynghorydd David Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad.**

Adroddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, a hefyd y Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd, Swyddog Adrannol Iechyd yr Amgylchedd, Uwch Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol a'r Rheolwr Datblygu, ar y cyfrifoldebau portffolio sy'n ymwneud â Thai Amlfeddiannaeth (HMOs).

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad at y ddau faes gwasanaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth Lleoedd gyda rolau statudol allweddol i Dai Amlfeddiannaeth (HMOs). Er i'r pwyllgor ofyn i adolygu gwaith y Gwasanaeth Tai ac Iechyd Cyhoeddus o ran HMOau, roedd hi'n bwysig bod rôl y Gwasanaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas hefyd yn cael ei chynnwys o ran polisi cynllunio i ddarparu cyd-destun ar gyfer materion na ellir ymdrin â nhw heb drwyddedu HMO a deddfwriaeth tai.

Cyfeiriodd yn benodol at berfformiad a'r materion sy'n ymwneud â phandemig COVID-19 a effeithiodd ar waith y tîm Iechyd yr Amgylchedd a Thai ac sy'n herio staffio.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Perfformiad a thueddiadau cyfredol mewn perthynas â phrosesu Trwyddedau HMO.

- Deddfwriaeth a heriau perthnasol sy'n gysylltiedig â rheoli tair cyfundrefn wahanol sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu HMOau.
- Gweithgareddau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch HMOau a goblygiadau'r Ddeddf Rhentu Cartrefi newydd.
- Cyllidebau a chreu incwm.
- Proses gynllunio/nodi HMOau wrth ymdrin â cheisiadau.
- Cyfrifiadau CDLl ynghylch trefn dosbarth a chategoreiddio eiddo yn unol â'r Ddeddf Gynllunio. (Bydd swyddogion yn darparu enghreifftiau o drothwyon canran mewn perthynas â'r crynodiad o HMOau sy'n cael eu gwrthod yn erbyn ffactorau perthnasol eraill).
- Mae canllawiau CDLl yn ymwneud â'r 'rheol chwe mis' a'i defnydd cyfredol (lle mae'n ofynnol marchnata eiddo fel cartref 'teuluol' am gyfnod cyn y gellir ei ystyried at ddefnydd HMO).
- Llwyddiannau CDLl mewn atal ceisiadau cynllunio ar gyfer HMOau lle mae'r polisi'n dangos na fyddan nhw'n cael eu caniatáu.
- Trwyddedu HMO yn Uplands, ger y Castell, y Glannau a St Thomas.
- Ceisiadau trwydded HMO sy'n aros (darperir crynodeb fesul ward i'r pwyllgor).
- Y sefyllfa bresennol o ran mynd i'r afael ag effaith niweidiol y nifer mawr o fyrddau gosod mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o eiddo rhent.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a Swyddogion.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 78 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Oedolion (Y Cynghorydd Sue Jones, Cynullydd)

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad mewn perthynas â Phanel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion.

## 79 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 80 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2022/23 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Yn unol â chynllun gwaith y Pwyllgor, y prif eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 14 Mawrth oedd:

- Camau Dilynol: Gweithgor Craffu ar Wasanaethau Bysiau.
- Perthynas Archwilio/Craffu

Nodwyd bod cyfarfod Pwyllgor Arbennig y Rhaglen Graffu wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 20 Mawrth am 4pm i gynnal craffu cyn penderfynu ar adroddiad Cabinet ar y Terfyn Cyflymder Diofyn Cenedlaethol o 20 mya.

## 81 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

## 82 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiad ac amser Cyfarfodydd y Panel/Gweithgor Craffu sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:26

**Cadeirydd**